# Cyswllt Ffermio: Canllaw Cofrestru i Ffermwyr

## Rhagymadrodd

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut y gall defnyddwyr presennol a newydd RPW Ar-lein gofrestru ar gyfer **Cyswllt Ffermio**, sy'n cefnogi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), yn arbennig:

- **Gweithred Gyffredinol 3 - Meincnodi**
- **Gweithred Gyffredinol 4 – Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

Os ydych am gofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio, rhaid gwneud hynny **drwy RPW Ar-lein**, gan gynnwys os ydych wedi defnyddio Cyswllt Ffermio o'r blaen. Yr unigolyn sydd angen mynd ar Cyswllt Ffermio ddylai gofrestru, nid yr Asiant sy'n gweithredu ar ran y busnes. Y rheswm am hyn yw am fod RPW Ar-lein yn defnyddio bellach One Login GOV UK i gysylltu'ch manylion personol (eich e-bost a'ch manylion mewngofnodi) â **Chyfeirnod Cwsmer** (CRN) eich busnes.

Byddwch yn defnyddio'r CRN i gofrestru gyda Cyswllt Ffermio a bydd wedi'i gysylltu â'ch manylion One Login gan sicrhau bod eich gwybodaeth yn para'n gyson ar draws pob gwasanaeth. Drwy hynny, bydd Cyswllt Ffermio yn gallu cadarnhau'n awtomatig ar RPW Ar-lein pan fyddwch wedi gorffen Gweithredoedd Cyffredinol 3 a 4. Ni fyddai hynny'n bosibl heb y cyswllt a wnaethoch wrth gofrestru.

Mae'r canllaw yn darparu dolen â chymorth ychwanegol ac â'r Eirfa yn Atodiad 1 os bernir bod hynny'n ddefnyddiol.

## Cyn ichi ddechrau

Cyn dechrau cofrestru, gwnewch yn siŵr:

✓ Bod gennych eich **manylion mewngofnodi RPW Ar-lein**, gan gynnwys eich **Cyfeirnod Cwsmer (CRN)**
✓ Eich bod wedi **symud i One Login GOV.UK**
✓ Bod gennych y **rolau a'r caniatâd** cywir yn RPW Ar-lein
✓Bod **Amaethyddiaeth a Choetir Fferm** wedi cael ei ddewis fel maes busnes
✓ Bod gennych **rif CON** (os ydych wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio o'r blaen). Cafodd nodyn atgoffa ei anfon atoch ar wahân.

Os nad ydych yn siŵr beth sydd angen ichi ei wneud, darllenwch y canllawiau ar-lein trwy'r dolenni ar y ffurflen.

## Pwy sy'n gymwys

I gofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio, rhaid i chi:

- Fodloni **meini prawf** Cyswllt Ffermio, a byddwch
- wedi **symud yn llwyddiannus i One Login GOV.UK**

Mae rhagor o arweiniad ynghylch pwy sy'n gymwys ac am One Login yn LLYW.CYMRU.

# Rolau a Chaniatâd ar RPW Ar-lein

Bydd pwy fydd yn cael mynd ar Cyswllt Ffermio yn dibynnu ar y rôl y bydd pob unigolyn o fewn y CRN wedi'i chael ar ôl symud i One Login GOV.UK .

## Pa rolau sy'n cael cofrestru

Mae'r rolau canlynol yn cael cofrestru ar Cyswllt Ffermio:

- **Aelodau'r Busnes**
  - Perchennog / Unig fasnachwr
  - Partner Busnes
  - Cyfarwyddwr
  - Ysgutor
  - Cadeirydd / Ymddiriedolwr
  - Gweinyddwr Personol
  - Gweithiwr gydag awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo
  - Ysgrifennydd Cwmni
- **Pobl nad ydynt yn aelodau o'r busnes**
  - Priod/aelod o'r teulu
  - Gweithiwr cyflog
  - Rheolwr
  - Ysgrifennydd

Os oes gan unigolyn rôl arall fel **unigolyn nad yw'n aelod o'r Busnes,** ni fydd yn cael cofrestru.

Y **Gweinyddwr Ar-lein** sy'n gyfrifol am roi rolau a chaniatâd o fewn y CRN.

Am ragor o wybod aeth am rolau a sut i wneud newidiadau, darllenwch dudalennau cymorth One Login

# Caniatâd i Bobl nad ydynt yn aelodau o'r Busnes

Nid yw cael y **rôl** gywir yn ddigonol - bydd angen y **caniatâd** cywir hefyd ar Bobl nad ydynt yn aelodau o'r busnes sy'n gysylltiedig â'u cyfrif. Dim ond y **Gweinyddwr Ar-lein** sy'n cael rhoi'r caniatâd hwn.

Mae canllawiau ar roi caniatâd ar gael ar dudalen 12 o *RPW Ar-lein: symud o Borth y Llywodraeth i GOV.UK One Login.*

## Ychwanegu Pobl nad ydynt yn aelodau o'r Busnes

Pan fydd Pobl nad ydynt yn aelod o'r Busnes yn cael eu hychwanegu, gall y Gweinyddwr Ar-lein ddewis rhoi **Mynediad Llawn, Mynediad wedi'i Deilwra neu Dim Mynediad** iddynt i RPW Ar-lein.

Bydd **dolen gofrestru Cyswllt Ffermio** yn ymddangos ar yr hafan waeth beth yw lefel y mynediad. Os **nad oes mynediad** wedi'i ganiatáu, ni fydd yr unigolyn yn cael mynd ar RPW Ar-lein heblaw trwy **ddolen gofrestru Cyswllt Ffermio i gofrestru ar gyfer hyfforddiant.**

# Meincnodi a FARMDATA+

Mae Cyswllt Ffermio yn caniatáu mynediad i chi ar **FARMDATA+**, yr offeryn a ddefnyddir i gofnodi'r **Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)** sydd eu hangen fel rhan o Weithred Gyffredinol 3.

- Mae **Aelodau Busnes** yn cael mynd arno'n awtomatig.
- Rhaid i'r **Gweinyddwr Ar-lein** roi caniatâd i **Bobl nad ydynt yn aelodau o'r Busnes** i fynd arno, gweler **Canllawiau One Login**

I roi mynediad i **Bobl nad ydynt yn aelodau o'r Busnes** i **FARMDATA+,** rhaid i'r **Gweinyddwr Ar-lein** roi **Mynediad wedi'i Deilwra.** Mae hyn yn caniatáu i'r gweinyddwr roi mynediad uniongyrchol i **FARMDATA+,** ynghyd â phob caniatâd arall sy'n ofynnol. Ar gyfer cyfarwyddiadau gam wrth gam, gweler **Canllawiau One Login**

# Cofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio

Pwysig:

- **Ni fydd asiant yn cael cofrestru ar eich rhan**
- Rhaid i bob Aelod Busnes a Phobl gymwys nad ydynt yn aelod o'r Busnes gofrestru fel unigolyn drwy RPW Ar-lein
- Os ydych chi'n ymwneud â mwy nag un busnes, gallwch gofrestru ar gyfer pob un cyn belled â bod gennych y caniatâd cywir a'ch bod wedi symud i One Login GOV.UK.

Os ydych eisoes wedi cofrestru'ch manylion fel unigolyn o dan CRN arall, byddwch yn dal i gael eu defnyddio.

# Cofrestru

Pan fyddwch chi'n dechrau llenwi ffurflen gofrestru Cyswllt Ffermio, gofynnir yn awtomatig i chi gofrestru naill ai:

1. **Busnes + Unigolyn**
   – trwy lenwi manylion busnes ac unigolyn
   – Fel arfer, hwn fydd y person cyntaf sy'n cofrestru o dan y CRN
2. **Busnes yn Unig**
   – Dim ond manylion y busnes sydd eu hangen
   – Yn digwydd pan fydd eich manylion fel unigolyn eisoes yn bodoli o dan CRN arall
3. **Unigolyn yn Unig**
   – Dim ond eich manylion personol sydd eu hangen
   – Yn digwydd pan fydd manylion y busnes eisoes wedi'u llenwi gan rywun arall


# Y Daith trwy'r Sgriniau

**Tudalen Hafan RPW:** Gallwch Gofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio o hafan RPW Ar-lein. Cliciwch ar Cofrestru i ddechrau'r broses. I weld yr opsiwn hwn, rhaid i ddefnyddwyr:

- fod wedi symud i **One Login**
- fod yn **fusnes Amaethyddol a Choetir Fferm**
- fod â rôl fusnes cymwys neu rôl rhywun sy ddim yn aelod o'r busnes megis:

| Aelod o'r Busnes | Pobl nad ydynt yn Aelod o'r busnes |
|---|---|
| Perchennog / Unig Fasnachwr | Priod/Aelod o'r Teulu |
| Partner Busnes | Gweithiwr cyflog |
| Cadeirydd / Ymddiriedolwr | Rheolwr |
| Gweinyddwr Personol | Ysgrifennydd |
| Ysgutor | |
| Gweithiwr gydag awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo | |
| Ysgrifennydd Cwmni | |
| Cyfarwyddwr | |







**Sgrin Manylion y Busnes**: Mae'r sgrin hon yn cyflwyno'r broses gofrestru, pwy sy'n gymwys a pham mae angen y wybodaeth i gefnogi Gweithredoedd Cyffredinol ac Opsiynol yr SFS.

Mae gwybodaeth orfodol wedi'i marcio â seren* ar hyd y ffurflen. Bydd rhywfaint o wybodaeth (fel manylion cyswllt a sectorau amaethyddol) yn cael ei llenwi ar eich rhan gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch yn RPW Ar-lein.

Gall defnyddwyr ddiweddaru manylion cyswllt eu busnes ac unigolion, a'u sectorau amaethyddol, wrth lenwi'r ffurflen – bydd hyn yn diweddaru eu Cyfrif RPW Ar-lein. Mae rhai meysydd yn cael eu defnyddio dim ond i fonitro Cyswllt Ffermio a *fyddan nhw ddim yn cael eu storio* yn RPW Ar-lein.

O'r pwynt hwn ymlaen, bydd y defnyddiwr yn dechrau cofrestru trwy glicio ar **'Dechrau Cofrestru'.**



Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

Eich proffil | English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau

Yn ôl

# Pwy sy'n Gymwys a Phreifatrwydd

## Pwy sy'n gymwys am gymorth Cyswllt Ffermio

Darllenwch y meini prawf ar gyfer cael cymorth Cyswllt Ffermio yma

## Hysbysiad Preifatrwydd Cyswllt Ffermio

Mae'ch preifatrwydd yn bwysig i Cyswllt Ffermio ac yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar gyfer Diogelu Data (GDPR), rydym wedi llunio Hysbysiad Preifatrwydd sy'n esbonio pam ei fod yn casglu, yn defnyddio ac yn prosesu'ch gwybodaeth a phwy fydd yn cael ei gweld.


Trwy barhau i gofrestru, rydych chi'n cadarnhau'ch bod wedi darllen Hysbysiad Preifatrwydd Cyswllt Ffermio a'ch bod yn cytuno â'r telerau. Hysbysiad Preifatrwydd.

Parhau | Yn ôl

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd | Cwcis | Preifatrwydd

**Pwy sy'n Gymwys a Phreifatrwydd** Mae'r sgrin hon yn dangos y dolenni ichi allu darllen yr adrannau yn Cyswllt Ffermio sy’n delio â phwy sy'n gymwys am gymorth a’r Hysbysiad Preifatrwydd. Mae'r dogfennau hyn yn ddogfennau allanol.

Dylai'r defnyddiwr eu darllen cyn bwrw ymlaen.





**Manylion Cysylltu â'r Busnes:** Bydd gwybodaeth sydd eisoes wedi'i chadw yn RPW Ar-lein yn cael ei dangos yma. Bydd unrhyw feysydd gwag yn arwydd bod y data ar goll.

Rydym yn eich cynghori i ddarllen yr holl fanylion yn ofalus.

Os oes angen newid rhywbeth, dewiswch "Diweddaru'r wybodaeth hon", a fydd yn eich anfon at sgrin manylion y cwsmer. Arbedwch eich newidiadau yn RPW Ar-lein a mynd yn ôl i'r ffurflen. Bydd y data newydd yn ymddangos yn awtomatig.




**Sut i Gysylltu â'r Busnes:** Rhaid i'r defnyddiwr ddewis un opsiwn er mwyn bwrw ymlaen. Os nad yw RPW Ar-lein yn gallu cynnig y dull a ffefrir gennych, rhaid i'r defnyddiwr ddewis opsiwn arall y gall RPW Ar-lein ei gynnig ichi.




Ni chaiff y defnyddiwr fynd yn ei flaen nes ei fod wedi dewis opsiwn dilys.

Yn ôl

## Sectorau Amaethyddol

O'r sectorau a restrir isod, dewiswch bopeth yn eich busnes sy'n cael ei redeg fel menter fasnachol
Rydym yn casglu'r data hyn at ddiben y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn unig, mewn perthynas â'r haen Unigol, opsiynol a chydweithredol pan fo hynny'n berthnasol.


**Gwybodaeth ynghylch tatws a gwreiddgnydau'n gnydau Âr neu'n gnydau Garddwriaeth:**
Er bod ffermio âr fel arfer yn cynnwys gwreiddgnydau, mae'r categori'n dibynnu ar y maint a'r math. Fel arfer ystyrir bod tatws yn wreiddgnwd, ond byddai tyfu rhai llysiau fel moron ar raddfa fach yn cael ei ystyried yn arddwriaeth.

**Dewisiwch eich Sectorau Amaethyddol ***

- [ ] Llaeth
Cadw neu magu gwartheg i gynhyrchu llaeth a chynhyrchion llaeth eraill nad ydynt at eich defnydd eich hun.
- [ ] Cig Eidion
Cadw neu magu gwartheg ar gyfer bridio neu gynhyrchu cig nad yw at eich defnydd eich hun.
- [x] Defaid
Cadw neu magu defaid ar gyfer gwlân, bridio, llaeth, neu gynhyrchu cig nad yw at eich defnydd eich hun.
- [ ] Moch
Cadw neu magu moch ar gyfer bridio neu gynhyrchu cig nad yw ar eich cyfer chi eich hun.
- [ ] Dofednod
Cadw neu magu dofednod ar gyfer bridio, cynhyrchu wyau neu gig nad ydynt at eich defnydd eich hun.
- [ ] Âr
Tir sy'n cael ei drin ar gyfer cynhyrchu cnydau - gan gynnwys tir a ddefnyddir ar gyfer cnydau combein, cnydau a dyfir ar gyfer ffibr, tatws, gwreiddgnydau, cnydau a dyfir ar gyfer bwyd anifeiliaid fel indrawn porthiant a rêp porthiant.
- [ ] Garddwriaeth
Cynhyrchydd cnydau garddwriaethol masnachol. Mae cnydau garddwriaethol yn golygu ffrwythau, a llysiau bwytadwy, planhigion addurnol, blodau a meithrinfeydd coed.
- [ ] Geifr
Cadw neu magu geifr ar gyfer ffibr, bridio, llaeth, neu gynhyrchu cig nad yw at eich defnydd eich hun.
- [ ] Coetir / Amaethgoedwigaeth
Coetir / Amaethgoedwigaeth yw integreiddio coed i'r system ffermio, gan gynnal neu wella prif allbwn amaethyddol y fferm.
- [ ] Glaswelltir / Porthiant (Dim Anifeiliaid)
Nid oes gennych anifeiliaid pori eich hun, a'ch prif fenter yw torri gwair, byrnu gwair a/neu silwair, gwerthu porthiant neu osod eich tir i ffermwyr eraill i bori eu hanifeiliaid.
- [ ] Coetir (Masnachol)
Mae coetir masnachol yn cyfeirio at goetir a brynwyd at ddibenion masnachol neu a blannwyd ar gyfer y dibenion hynny, megis cynhyrchu pren, gall hefyd gynnwys coetir a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau hamdden sy'n cynhyrchu incwm. Maent yn cynnwys coed y gellir eu cynaeafu yn broffidiol.
- [ ] Cadw gwenyn (Gwenynyddiaeth)
Cadw gwenyn i gynhyrchu mêl, cwyr a helpu i beillio cnydau.
- [ ] Camelidau


**Sectorau amaethyddol:** Mae'r sgrin hon yn dangos y sectorau amaethyddol sy'n gysylltiedig â'r busnes.

Bydd tic yn cael ei roi wrth unrhyw sector sydd eisoes wedi'i gofnodi (trwy'r sgrin Sector Amaethyddol neu SAF y flwyddyn ddiwethaf). Gall y defnyddiwr ddiweddaru'r rhestr yn ôl yr angen - bydd newidiadau yn diweddaru cofnod y busnes ar RPW Ar-lein yn awtomatig





**Meysydd o Ddiddordeb:** Mae'r opsiynau hyn yn helpu Cyswllt Ffermio i deilwra hyfforddiant i anghenion y busnes.


Gall y defnyddiwr ddewis cymaint ag sydd ei angen ond rhaid dewis o leiaf **dau** er mwyn cael bwrw ymlaen.




**Statws Fferm Organig:** Dewiswch a yw'r busnes yn gwbl organig neu wrthi'n troi'n organig. Rhaid gwneud hyn er mwyn cael bwrw ymlaen.




Rhaid i'r defnyddiwr ddewis ac ateb i fwrw ymlaen.




**Yr amod 550 Awr:** Mae'r cwestiwn hwn yn ymddangos os yw'ch busnes yn un sydd â llai na 3ha o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru o dan eich rheolaeth, neu os nad ydym yn gwybod faint o dir sydd ganddoch.


Os yw'ch cofnodion tir yn anghywir neu'n anghyflawn, rhaid cwblhau cais **Rheoli Fy Nhir**, mae gwybodaeth bellach ar sut i gwblhau ar gael yma. Rhaid i fusnesau sydd â llai na 3ha o dir cymwys ddarparu tystiolaeth ategol i gadarnhau bod **550 o oriau llafur safonol** wedi'u gweithio. Os na all busnes ddangos mwy na 550 o oriau llafur safonol, ni fydd yn cael cofrestru gyda chanolfan wasanaethau Cyswllt Ffermio.

**Mae tystiolaeth ddogfennol yn cynnwys:**

- **Llythyr gan gyfrifydd wedi'i achredu** yn cadarnhau bod y busnes wedi cwblhau mwy na 550 awr yn ystod blwyddyn galendr.

**NEU**

- **Tystiolaeth ategol amgen,** a fydd ond yn cael ei dderbyn os yw'n darparu lefel gyffelyb o sicrwydd. Mae hyn yn golygu bod **rhaid i'r dystiolaeth hon gael ei gwirio gan weithiwr proffesiynol annibynnol sydd wedi'i achredu — fel cyfreithiwr**, sy'n meddu ar ddigon o ddealltwriaeth o'r busnes i gadarnhau bod 550 awr o waith wedi ei gwblhau.





**Manylion Cyswllt Unigolyn:** Mae'r dudalen hon yn cynnwys Gwybodaeth am Unigolion sydd eisoes yn RPW Ar-lein. Bydd unrhyw feysydd gwag yn arwydd bod y data ar goll.

Os oes angen i chi newid rhywbeth, dewiswch "Diweddaru'r wybodaeth hon", a fydd yn eich anfon at sgrin manylion y cwsmer. Arbedwch eich newidiadau yn RPW Ar-lein a mynd yn ôl i'r ffurflen. Bydd manylion newydd y cyswllt yn ymddangos yn awtomatig.

**Pwysig:** Gallai meysydd y cyswllt fod yn wahanol i fanylion y busnes os yw'r cyswllt yn byw mewn cyfeiriad gwahanol i'r brif fferm, a / neu os oes ganddo e-bost neu rif ffôn symudol neu ffôn gwahanol.


Rydym yn eich cynghori i ddarllen yr holl fanylion yn ofalus.




**Dewis Cyswllt Unigolyn:** Y ddau faes sy'n ofynnol ar y dudalen hon yw'r iaith a ffefrir a'r dull cysylltu a ffefrir.

Mae'r rhain yn benodol i'r unigolyn ac ni fyddant yn effeithio ar unrhyw ddewisiadau cysylltu sydd eisoes wedi'u gosod ar gyfer y CRN. Gall yr opsiynau a ddewiswch fel unigolyn fod yn wahanol i'r rhai ar gyfer y busnes.

Rhaid i'r defnyddiwr ateb y ddau gwestiwn i gael mynd i'r dudalen nesaf.





**Manylion Ychwanegol Unigolyn:** Mae'r sgrin hon yn dangos y manylion personol ac unrhyw wybodaeth sy'n bodoli eisoes am gyfrif Cyswllt Ffermio.

Os ydych chi eisoes wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio, gall y defnyddiwr nodi ei **rif CON** i'w gysylltu â'i hanes hyfforddiant. Mater o ddewis yw hyn ond rydym yn eich cynghori i wneud os ydych wedi cwblhau hyfforddiant o fewn y 12 mis diwethaf, gan y gall gyfrif tuag at weithredoedd cyffredinol yr SFS.

Gall defnyddwyr newydd nad ydynt wedi defnyddio Cyswllt Ffermio o'r blaen barhau heb nodi rhif CON

Os nad yw blwyddyn geni'r unigolyn yn hysbys, bydd gwymplen i'r defnyddiwr ei ddewis. Gall ddewis yr opsiwn peidio â dweud os oes angen.




**Gweld eich Atebion** Dyma gyfle olaf y defnyddiwr i gadarnhau'r manylion. Gwnewch yn siŵr bod yr holl wybodaeth yn gywir cyn cyflwyno'ch cais cofrestru.


**Cofrestru yn yr arfaeth:** Ar ôl cyflwyno'r ffurflen, bydd y defnyddiwr yn dychwelyd i hafan RPW Ar-lein, lle bydd baner gofrestru 'yn yr arfaeth' yn ymddangos.


Nod canolfan wasanaethau Cyswllt Ffermio yw adolygu ceisiadau cofrestru o fewn 5 diwrnod gwaith.




**Cymeradwyo Cofrestriad:** Os bydd y cofrestriad yn cael ei gymeradwyo, bydd neges yn ymddangos ar gyfrif RPW Ar-lein y defnyddiwr yn cadarnhau bod Cyswllt Ffermio wedi cymeradwyo'r cofrestriad.

Yna gall y defnyddiwr fynd ar Cyswllt Ffermio trwy RPW Ar-lein drwy ddefnyddio'r botwm "Mewngofnodi". Bydd hyn yn mynd â'r defnyddiwr yn syth i'w cyfrif Cyswllt Ffermio newydd.




Os gwrthodir y cofrestriad, bydd angen i'r defnyddiwr ail-gofrestru ar y dudalen gartref neu ailedrych ar y meini prawf cymhwystra Cyswllt Ffermio i sicrhau eu bod yn gymwys ar gyfer y rhaglen.

# Atodiad 1 – Geirfa

| | |
|---|---|
| **Cyswllt Ffermio** | Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw Cyswllt Ffermio, sy'n darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i ffermwyr a choedwigwyr ledled Cymru. |
| **Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy** | Dyma gynllun Llywodraeth Cymru i gefnogi ffermwyr i barhau i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ac ar yr un pryd, i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Bydd y cynllun yn cymryd lle Cynllun y Taliad Sylfaenol, a fydd yn cael ei ddileu fesul cam erbyn 2029. |
| **Gweithredoedd Cyffredinol (UA)** | Gweithredoedd sylfaenol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy y mae disgwyl i bob ffermwr eu cynnal. |
| **Gweithred Gyffredinol 3 - Meincnodi** | Asesiad blynyddol gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) i fonitro a gwella'r busnes a'r perfformiad amgylcheddol |
| **Gweithred Gyffredinol 4 – Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)** | Meithrin eich sgiliau a'ch gwybodaeth drwy ddysgu ac e-ddysgu am amrywiaeth o bynciau. |
| **Cyfeirnod Cwsmer (CRN)** | Rhif unigryw a ddefnyddir gan RPW Ar-lein i adnabod pob cwsmer neu fusnes. |
| **One Login GOV.UK** | System mewngofnodi newydd y Llywodraeth sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddefnyddio unrhyw rai o wasanaethau'r llywodraeth gan ddefnyddio'r un cyfrinair a chyfeiriad e-bost. Mae'n cymryd lle Gwasanaeth Porth y Llywodraeth. |
| **Rolau** | Mathau o ddefnyddwyr mewn cyfrif RPW Ar-lein—Aelodau o'r Busnes neu Bobl nad ydynt yn Aelod o'r Busnes. Efallai mai dim ond un math o ddefnyddiwr sydd gan rai cyfrifon (h.y. Unig Fasnachwyr), a fydd yn Aelod o'r Busnes yn awtomatig. |
| **Caniatâd** | Lefelau mynediad at y cyfrif i ddefnyddwyr. Y person cyntaf sy'n cofrestru ar gyfer CRN trwy One Login (fel arfer yn Aelod Busnes) sy'n penderfynu ar lefelau'r caniatâd. |
| **Maes Busnes** | Y sector neu'r categori a ddewiswyd yn RPW Ar-lein sy'n diffinio natur eich busnes (e.e. Amaethyddiaeth a Choetir Fferm). |
| **Aelod o'r Busnes** | Bydd ganddo swydd bwysig yn y busnes, yn cael mynd i bob rhan o RPW Ar-lein ac |

| | |
|---|---|
| | yn cael gwneud cais am grant. Rhaid bod gan bob cyfrif o leiaf un Aelod Busnes. |
| **Pobl nad ydynt yn Aelod o'r busnes** | Defnyddiwr sydd â hawl gweinyddol i fynd i RPW Ar-lein ond nid yw'n cael derbyn na gwrthod grantiau. Aelod o'r Busnes sy'n gyfrifol am bennu lefel mynediad yr unigolion hyn. |
| **Gweinyddwr Ar-lein** | Y person sy'n gyfrifol am reoli rolau a chaniatâd defnyddwyr o fewn cyfrif busnes ar RPW Ar-lein. Bydd gweinyddwyr yn cael gwahodd unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r busnes i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein gan gynnwys rhoi mynediad 'wedi'i deilwra' i bobl nad ydynt yn aelodau o'r busnes. |
| **Mynediad Llawn** | Yn caniatáu mynediad i holl swyddogaethau RPW Ar-lein a gellir addasu'r caniatâd ar gyfer pob defnyddiwr o fewn y busnes (os yw'n berthnasol). |
| **Mynediad wedi'i Deilwra** | Mynediad wedi'i deilwra'n benodol i ddefnyddiwr yn ôl ei rôl. Nid yw'n cynnwys caniatâd i dderbyn neu wrthod grantiau. |
| **Mynediad Cyfyngedig** | Yn cael gweld yn unig RPW Ar-lein. Nid yw defnyddwyr â'r lefel hon yn cael cyflwyno ffurflenni hawlio na derbyn / gwrthod grantiau. |
| **FARMDATA+** | Offeryn digidol o fewn Cyswllt Ffermio i gwblhau Dangosydd Perfformiad a monitro hyfforddiant penodol. |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)** | Set o dargedau mesuradwy (yn ymwneud â busnes, da byw, yr amgylchedd a rheoli) sy'n darparu data i ffermwyr i'w helpu i wneud penderfyniadau rheoli. |
| **Rhif CON** | Rhif unigryw a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y gorffennol gan Cyswllt Ffermio i adnabod unigolion. Dim ond defnyddwyr presennol Cyswllt Ffermio fydd â'r rhif hwn. |

# Atodiad 2 -Siart Llif

**1. A ydych eisioes yn gwsmer RPW Ar-lein?**

| | |
|---|---|
| Ydw - Mewngofnodwch i RPW Ar-lein gan ddefnyddio eich manylion mewngofnodi presennol | Na – Cyfrestrwch ar gyfer Cyfeirnod Cwsmer (CRN) ar RPW Ar-leine (gweler y ganllawiau) |

**2. A ydych yn fusnes "Amaethyddiaeth a Choetiroedd Ffermydd?**

| | |
|---|---|
| Ydw – Ewch i hafan RPW Ar-lein | Na – Dim ond cwsmeriaid yn y maes busnes hwn sydd yn gymmwys i gofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio |

**3. A ydych wedi trosglwyddo i GOV.UK One Login?**

| | |
|---|---|
| Do – Dylai y botwm cofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio ymddangos ar hafan RPW Ar-lein | Na – Mae angen creu cyfrif U"K One Login"(gweler canllawiau am gymorth |

**4. A oes gennych rôl Partner busnes neu rôl nad yw yn bartner busnes**

| | |
|---|---|
| Oes – Dylai y botwm cofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio ymddangos ar hafan RPW Ar-lein . | Na – Ond unigolion gyda rôl gymwys sydd yn gallu cofrestru (gweler y canllawiau ofynion y rôl). |

**5. A oes gennych y caniatad cyiwr? *gall aelodau y busnes hebgor y cam hwn***

| | |
|---|---|
| Oes – Cychwynnwch y cofrestriad Cyswllt Ffermio ar hafan RPW Ar-lein | Na – fydd rhaid i'ch gweinyddwr ar-lein diweddaru eich caniatad i gael mynediad. |

**6. A ydych yn aelod nad yw yn y busnes ac yn bwriadu cwblhau "KPI's" o dan UA3? *gall aelodau y busnes hebgor y cam hwn***

| | |
|---|---|
| Ydw – sicrhewch fod eich gweinyddwr ar-lein yn rhoi mynediad ar gyfer FARMDATA+ i chi | Na – Cychwynnwch y cofrestriad Cyswllt Ffermio ar hafan RPW Ar-lein . |

**7. A chi yw y cyntaf (neu yr unig un) yn y busnes sydd yn bwriadu cofrestru gyda Cysswlt Ffermio ?**

| | |
|---|---|
| Ia – Cwblhewch y cyflwynwch y cofrestriad yn llawn (manylion y busnes ac yr unigolyn). | Na – Cariwch ymlaen ir cam nesaf |

**8. A oes nifer o unigolion o fewn eich busnes CRN sydd angen cofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio?**

| | |
|---|---|
| Oes - Mae angen i phob unigolyn cofrestu gan ddefnyddio ei manylion mewngofnodi Gov UK One Login unigol | Na – Cariwch ymlaen ir cam nesaf |

**9. A ydych yn bwriadu cofrestru mwy nag un busnes (CRN)?**

| | |
|---|---|
| Ydw – Rhaid i phob busnes cael ei gofrestru yn unigol ffodd bynnag ond unwaith rhaid i chi fel unigolyn cofrestru. | Na – Cariwch ymlaen ir cam nesaf |

**10. A ydych eisioes wedi ddefnyddio Cyswllt Ffermio?**

| | |
|---|---|
| Do – Mae'n bwysig cwblhau eich rhif CON yn ystod cofrestru | Na – Cariwch ymlaen ir cam nesaf |

**11. A ydych wedi cyflwyno eich ffurflen cofrestru?**

| | |
|---|---|
| Do – Fydd neges yn dangos fod eich cofrestriad yn "mynd rhagddo" yn ymddangos ar eich hafan RPW Ar-lein | Na – Pwysig eich bod yn pwyso y botwm glas "cyflwyno". |

**12. A yw ech cofrestriad Cyswllt Ffermio wedi ei gymeradwyo?**

| | |
|---|---|
| Do – mi fydd y botwm "mewngofnodi" yn ymddangos ar eich hafan RPW Ar-lein | Na – Gellir cymeryd hyd at 5 diwrnod gwaith i'r cofrestriad gael ei gymeradwyo. Os mae y bowtwm ""Cofrestu" yn ail ymddangos yna cysylltwch a'r ddesg gymorth Cyswllt Ffermio **03456 000 813**. |